

Datganiad Gwrth-hiliaeth Comisiynydd Plant Cymru

Daeth yr anfantais a'r camwahaniaethu systematig mae pobl o gymunedau amrywiol yn eu profi yn gwbl glir yn 2020. Ar lefel fyd-eang, amlygodd y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys (BLM) ddieter a thristwch pobl o amrywiol gymunedau ar draws y byd gorllewinol ynghylch degawdau a chanrifoedd o gamddefnyddio pŵer, hiliaeth, a rhagfarn anymwybodol gan ein sefydliadau, ein cymunedau ac unigolion. Hefyd gwnaeth y pandemig ni'n fwy ymwybodol o gamwahaniaethu hiliol, oherwydd y pris uwch a dalwyd o ran iechyd, gyda nifer uwch o farwolaethau a chaledi mwy systematig, mewn cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Mae ein data ninnau yn dangos bod plant Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol o amrywiol gymunedau yng Nghymru, gwaetha'r modd, wedi bod yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau yn ystod y pandemig na'u cyfoedion gwyn.

Fel sefydliad, mae mwyafrif llethol ohonom yn wyn o ran ethnigrwydd a diwylliant. Mae hynny'n ein rhoi o dan anfantais o safbwynt y posibilrwydd o golli cyfle i sicrhau safbwyntiau, profiadau ac arbenigedd mwy amrywiol, yn arbennig ond nid yn unig wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc o amrywiol gymunedau a deall eu hanghenion. Ar hyn o bryd nid ydym yn darparu modelau rôl cryf ar gyfer plant o bob ethnigrwydd, a allai ragdybio, hyd yn oed os yw hynny ar lefel yr isymwybod, mai oedolion gwyn yn unig sy'n arbenigwyr ar hawliau dynol. Rydyn ni eisiau newid.

Roedd ein harolwg Coronafeirws a Fi yn 2020, er ei fod yn llwyddiannus dros ben, yn cynnwys rhywfaint bach o dangynrychiolaeth o ran plant o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn y gyfradd ymateb. Mae'r canlyniadau a gafwyd wedi hynny yn awgrymu bod angen i ni ymgysylltu'n agosach â chymunedau amrywiol, a bydd arnon ni angen y gallu diwylliannol i wneud hynny'n effeithiol ac i ddeall a dadansoddi'r ymateb a gawn.

<https://www.complantcymru.org.uk/coronafeirws-ein-gwaith/coronafeirws-a-fi-canlyniadau/>

<https://www.complantcymru.org.uk/coronafeirws-ein-gwaith/coronafeirws-a-fi-plant-bame/>

Ein hymrwymiad

Mae pawb sy'n gweithio i'r Comisiynydd wedi ymrwymo i weithio i ddileu hiliaeth a gormes ledled cymdeithas fel rhan o'n hymrwymiad hollgynhwysol i hybu hawliau dynol, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad. Ein nod bob amser yw trin pobl yn deg ac â pharch, dysgu am ddiwylliannau a chenhedloedd eraill, a chynyddu ymwybyddiaeth o hiliaeth a bwlio hiliol. Byddwn ni'n herio hiliaeth yn rhagweithiol yn ein sefydliad ac mewn sefydliadau eraill y cwrddwn â nhw. Ein nod fydd canfod a dileu unrhyw hiliaeth sefydliadol yn ein sefydliad ein hun ac yn y gymdeithas ehangach.

Ein cynlluniau ynghylch sut i newid, a beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma eleni

Dyma ein datganiad gwrth-hiliaeth cyntaf, ac mae'n feincnod i ni adeiladu arno. Rydyn ni'n ymrwymo i adolygu cynnydd yn erbyn ein camau gweithredu a'r datganiad hwn yn flynyddol.

- Rydyn ni wedi bod yn datblygu ein diwylliant, ein polisiau a'n harferion fel ein bod ni'n gallu dod yn sefydliad gwrth-hiliol gweithredol ym mhopeth a wnawn, ac yn gallu cyflawni newid ystyrlon.
- Rydyn ni wedi sefydlu prosiect cydraddoldeb ar draws ein timau i arwain y gwaith hwn, ac wedi datblygu cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil a lywiwyd gan Gôd Cydraddoldeb Hil 2020 i wella sut rydyn ni'n meddwl am hiliaeth ac yn ymateb iddo <https://governance4fe.co.uk/the-race-equality-code-2020-is-launched/>.
- Rydyn ni wedi ymchwilio i arfer gorau o ran hysbysebion swyddi a manylebau swyddi, ac wedi newid ein defnydd presennol o iaith a'n fformatau.

- Mae ein disgrifiadau swydd wedi cael eu diweddarau i ddangos ein bod ni'n gosod gwerth ar brofiad bywyd fel math o arbenigedd. Newidiwyd y ffurflenni cais ar gyfer swyddi newydd i sicrhau bod manylion personol yn cael eu dileu cyn llunio'r rhestr fer, ac nad oes angen cynnwys manylion sefydliadau addysg.
- Rydyn ni wedi cyflwyno cynllun gwarantu cyfweliad i ymgeiswyr o gefndiroedd cymunedol amrywiol.
- Rydyn ni'n datblygu gwybodaeth ac adnoddau i'r Tîm ynghylch cymryd camau cadarnhaol effeithiol.
- Rydyn ni wedi ceisio cyngor ac arweiniad ynghylch sut i ddatblygu ein sefydliad gan arbenigwyr yn y maes. Mae gennym ni drefniant cydweithio parhaus o'r ddeutu gyda sefydliad arbenigol trydydd sector i gefnogi'r gwaith datblygu hwn.
- Byddwn ni'n adrodd ar gynnydd o ran ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil yn ein hadroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.

Y gwerthoedd sy'n sylfaen ar gyfer ein gwaith:

- Mae plant a phobl ifanc yn chwarae rhan glir a dilys yn hysbysu ac yn helpu i gyfeirio ein gwaith.
- Rydyn ni'n sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc rydyn ni'n cysylltu â nhw yn cael eu cadw'n ddiogel trwy ein polisïau a'n hymarfer.
- Ein nod yw gwrthweithio pob math o gamwahaniaethu a glynu at ddeddfwriaeth cydraddoldeb ym mhob agwedd ar ein gwaith.
- Rydyn ni'n rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein sefydliad a'n cyfathrebu allanol, ac yn annog defnydd o'r Gymraeg fel iaith bob dydd yn ein swyddfa.
- Rydyn ni'n glynu at Werthoedd Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'n Un ac egwyddorion ein gwaith.

Beth mae Comisiynydd Plant Cymru yn ei wneud?

- Cefnogi plant a phobl ifanc i ddysgu am eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Gwrandao ar blant a phobl ifanc i ddysgu beth sy'n bwysig iddyn nhw
- Cyngori plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdany'n nhw os byddan nhw'n meddwl eu bod wedi cael eu trin yn annheg
- Dylanwadu ar y llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n dweud eu bod yn mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan sicrhau eu bod yn cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc
- Codi llais dros blant a phobl ifanc yng Nghymru ar faterion pwysig